Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend Public Services Board

# Adroddiad Blynyddol 2020 - 2021

## Adeiladu Cymunedau Gwydn a Chydgysylltiedig

Yn ystod 2020-21, daeth **1300** o wirfoddolwyr ychwanegol ymlaen i gynorthwyo'u cymunedau. Y **3ydd** uchaf yng Nghymru

Cafodd **4444** o bobl eu cynorthwyo dros y flwyddyn gan gynnwys

- 721 Siopa
- 2993 Presgripsiynau
- 225 Diogelwch Bwyd
- 312 Gwneud Ffrindiau dros y Ffôn
- 1126 Gwiriadau Gwarchod

### Cymhlethdod

Dros y flwyddyn cynyddodd cymhlethdod yr angen, gan gynnwys iechyd meddwl, pryder, diogelwch ariannol, camddefnyddio alcohol a sylweddau a llai o symudedd / eiddilwch.

Cafodd **446** o wirfoddolwyr eu cynorthwyo drwy hyfforddiant fel a ganlyn:

- 119 o Ffrindiau dros y Ffôn
- 29 o wirfoddolwyr Age Cymru Morgannwg
- 102 o wirfoddolwyr Cymorth Siopa
- 30 o wirfoddolwyr Ymweld â rhai oedd yn Gwarchod
- 73 o wirfoddolwyr Fferyllfa
- 21 o wirfoddolwyr Cymorth Banc Bwyd
- 50 o gyfranogwyr Cynllun Ffrind drwy Lythyr
- 20 o wirfoddolwyr Rhestr Argyfwng (amryw o ardaloedd)
- 2 o wirfoddolwyr Mynd â'r Ci am Dro

### Partneriaid 3ydd sector

Cynnydd o 56-77 o bartneriaid 3ydd sector yn cynorthwyo pobl leol drwy atgyfeiriadau.

Mewn arolwg o **214** o bobl oedd yn derbyn cymorth

Roedd **99%** yn hapus gyda'r cymorth a'r cyngor ynghylch ble i gael cymorth

Derbyniodd **98%** y cymorth oedd yn cael ei gynnig.

**CLICIWCH YMA Gwrandewch ar eu storïau**

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend Public Services Board

## Canfyddiadau Allweddol yr Asesiad Effaith Cymunedol gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg

Rhwng Ebrill a Medi 2020, gwelodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg **16,000** o dderbyniadau i'r ysbyty, yr oedd **17%** ohonynt yn ymwneud â COVID-19.

Rhwng Mawrth a Gorffennaf 2020, digwyddodd **460** o farwolaethau yn ymwneud â COVID-19 ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Ers dechrau pandemig COVID-19, mae nifer y gofalwyr di-dâl yng Nghymru wedi cynyddu o **40%**, gan fynd â chyfanswm nifer y gofalwyr di-dâl i oddeutu **683,000.**

Adroddodd **68%** o rieni a gofalwyr plant ag anghenion addysgol arbennig eu bod wedi cael trafferth i ddysgu eu plant gartref yn ystod pandemig COVID-19, a theimlai **28%** fod eu hysgol yn darparu lefel dda o gefnogaeth.

Dyblodd mynychder yr achosion hunangofnodedig o iselder ysgafn neu ddifrifol yn ystod y cyfnod clo.

Ar 30 Mehefin, roedd bron i **58,000** o bobl ar draws y Partneriaethau wedi eu rhoi ar ffyrlo; **31%** o'r holl swyddi cymwys.

Gwnaed gwerth **£1.8** miliwn o daliadau cymorth mewn argyfwng (EAP) a thaliadau cymorth i unigolion (IAP) ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

I'r rheiny oedd yn byw mewn tai gyda chymorth neu dai rheoledig, cynyddodd y problemau iechyd meddwl.

**Gostyngodd** troseddau yn sylweddol ym mis Ebrill 2020 ond, erbyn Mehefin 2020, roeddent wedi dychwelyd i lefelau tebyg i'r un cyfnod yn 2019.

Yn ôl arolwg 'Mannau gwyrdd ac agored' Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr, defnyddiodd **52%** o ymatebwyr fannau gwyrdd ac agored yn amlach yn ystod y cyfnod clo nag o'r blaen.

## Bydd y 3 bwrdd yn canolbwyntio'r adferiad ar

# Adroddiad Blynyddol 2020 - 2021

**Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol** delio ag effaith unigrwydd a bod wedi eu hynysu, effaith tymor hwy trais domestig a hynny ar blant a phobl ifanc, adeiladu ar y gwytnwch cymunedol nodedig a ddangoswyd yn ystod y pandemig

**Bod yn agored i niwed ac anghydraddoldeb** cydnabod bod mwy o effaith ar rai grwpiau neu fwy o berygl iddynt, gan gynnwys gofalwyr, pobl â dementia, BAME, pobl ag anabledd dysgu, pobl ifanc

**Y newid yn yr hinsawdd** dal y diddordeb cynyddol mewn mannau gwyrdd a natur, gan ddal ati i gynnal gweithgaredd corfforol cynyddol a gweithio tuag at garbon sero-net.

## Rhai enghreifftiau o weithgarwch y Byrddau Gwasanaethu Cyhoeddus o 2020-21

### Tymor hir

- Cefnogi prosiect Urban Buzz Pen-y-bont ar Ogwr gyda Buglife i greu rhwydwaith o gynefinoedd ar gyfer pryfaid a phriffyrdd i wenyn
- Gweithio gyda'r Cyngor ar y Cynllun Datblygu Seilwaith i ganfod cyfleoedd ar gyfer safleoedd ar y cyd yn y dyfodol o fewn y Cynllun Datblygu Lleol
- Cymryd rhan mewn Cymunedau Arloesi Economi Gylchol ar ddatgarboneiddio

### Cydweithredu

- Cydweithio gyda phartneriaid ar draws ardal Cwm Taf Morgannwg ar arferion caffael i gefnogi'r economi sylfaenol
- Sicrhau cyllid ar gyfer rhaglen Rhwydwaith Natur Cwm Taf i ddatblygu 20 o leoedd gwyrdd o safon uchel
- Cyfleu'r un negeseuon i staff, dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth ar ymddygiadau diogel a brechu
- Ailgartrefu dros 200 o bobl ddigartref mewn llety diogel yn ystod y cyfnod clo
- Cynorthwywyd 149 o ddioddefwyr trais domestig, oedd mewn perygl mawr, i fod yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain (cyswllt i ffeithlun CSP?)

### Atal

- Gweithdy rhanddeiliaid dichonoldeb coed i ganfod y safleoedd gorau ar gyfer plannu coed
- Dod â phartneriaid ynghyd i gefnogi Coleg Pen-y-bont ar Ogwr yn eu prosiect o 60,000 o goed
- Mapio cymorth i staff gydag iechyd meddwl a lles emosiynol
- 124 o staff wedi eu hyfforddi i adnabod a mynd i'r afael ag eithafiaeth yr adain dde

### Cymryd rhan

- Arolwg dinasyddion ynghylch lleoedd gwyrdd yn nodi sut mae mannau gwyrdd wedi cael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi yn ystod y cyfnodau clo (cyswllt)
- Datblygwyd pecyn adnoddau i wirfoddolwyr, teuluoedd, unigolion a grwpiau cymunedol ynglŷn â'r ffordd i ddefnyddio a gwella mannau gwyrdd
- Creu arolwg bywyd gwyllt amlbwrpas i'w ddefnyddio gan ysgolion, grwpiau cymunedol a theuluoedd (cyswllt)
- Cael 350 o bobl ifanc i gyfranogi mewn gweithgareddau i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol

### Integreiddio

- Gweithio gyda'r Cyngor ar strategaeth ddatgarboneiddio ar gyfer ardal Pen-y-bont ar Ogwr
- Gweithio gyda V2C (o'r Cymoedd i'r Arfordir) i gyflawni eu strategaeth cymunedau gwydn er mwyn gwella ardaloedd lleol i denantiaid a thrigolion
- Gweithio gyda chydlynwyr cymunedau i helpu pobl leol i ddefnyddio mannau gwyrdd a chyfleusterau i wella eu lles
- Rhannu dulliau er mwyn cynorthwyo gwasanaethau a staff i weithio'n wahanol yn ystod y pandemig.

## Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr

throseddu, anhrefn a phob agwedd ar ymddygiad gwrthgymdeithasol

### Ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB)

**2007** o atgyfeiriadau ASB, i lawr **15%** o **2360** yn **2019-20**

Deliwyd â

**97%** o ddigwyddiadau ASB yn llwyddiannus ar gam 1

Rhoddwyd

**4** contract ymddygiad gwrthgymdeithasol

**13** o sefydliadau sy'n bartneriaid yn cydweithio i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol

**3** gweithrediad – ASB ym Maesteg, Cerbydau, Beiciau oddi ar y Ffordd

**12** ardal ASB broblemus yn cael eu monitro gan y camera CCTV symudo

**350** o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol

**50** o bobl ifanc mewn sesiynau sglefrfyrddio ym Mhencoed

**37,364** o bobl wedi derbyn e-byst yn cynnwys negeseuon diogelwch cymunedol

## Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr

Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wella cydlyniant cymunedol fel bod pobl mewn cymunedau yn cael ymlaen yn dda â'i gilydd ac yn parchu a goddef gwahaniaethau

**85** o bostiadau'r cyfryngau cymdeithasol yn Saesneg ac yn Gymraeg yn hybu cydlyniant cymunedol gyda **220** o sylwadau, ymatebion neu rannu a **1,901** clic drwodd i dudalen y we

**14** erthygl yn hybu cydlyniant cymunedol

**124** o staff partneriaid y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi cael eu hyfforddi i adnabod a mynd i'r afael ag eithafiaeth yr asgell dde

**8** o erthyglau e-bost ynghylch sgamiau a masnachwyr twyllodrus

**5025** wedi edrych ar webinar wythnos ymwybyddiaeth o droseddau casineb gyda **206** wedi ei hoffi, gwneud sylwadau a'i rhannu



**31** o staff wedi mynd i sesiwn wybodaeth am Gynllun Preswylio'n Sefydlog yr UE

**POB** cartref wedi derbyn gwybodaeth am wneud cais i Gynllun Preswylio'n Sefydlog yr UE



**60** o hysbysebion radio wedi cael eu darlledu ynghylch gwneud cais i Gynllun Preswylio'n Sefydlog yr UE

**2100** o bobl wedi gwneud ceisiadau am Gynllun Preswylio'n Sefydlog yr UE o 17 cenedl wahanol

## Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr

Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol cyfagos i weithredu'r Strategaeth Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

**423** o ddioddefwyr cam-drin domestig oedd mewn perygl mawr wedi cael eu cynorthwyo i gadw'n ddiogel.

**149** o ddioddefwyr cam-drin domestig oedd mewn perygl mawr wedi cael eu cynorthwyo i fod yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain

**91%** o staff y Cyngor wedi cael eu hyfforddi i adnabod arwyddion cam-drin domestig a thrais rhywiol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr BRIDGEND County Borough Council

**74** o weithwyr wedi cael eu hyfforddi i gyfeirio dioddefwyr cam-drin domestig at gymorth yn eu hardaloedd

**105** o bostiadau'r cyfryngau cymdeithasol yn Saesneg ac yn Gymraeg yn cyrraedd 180,611 o bobl gyda 876 yn rhannu, yn hoffi ac yn rhoi sylwadau

**32** o ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Byw Heb Ofn, Cael Eich Clywed

**9** erthygl e-bost wedi cael eu cyhoeddi ynghylch trais yn erbyn merched a cham-drin domestig.